



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Cwestiynau ac atebion yn codi o gyfarfod wythnos diwethaf

1. Onid yw'n bolisi, ar ôl 18 mis, fod gwaith trapio a phrofi i fod i gael ei wneud? Ac nid yw'n cael ei wneud yn CL7 na CL8 a ni chynigiwyd hyn i neb cyn belled ag y gwn i.

Na, nid yw'n bolisi, ar ôl 18 mis, fod gwaith trapio a phrofi i fod i gael ei wneud. Gall gwaith trapio, profi a brechu/didol a difa fynd rhagddo mewn buchesi sydd ag achosion parhaus o TB sydd â Chynllun Gweithredu, cyn belled ag y bo'r holl fesurau gofynnol yn y Cynllun Gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith. Yn wreiddiol, nid oedd y mesur ond yn agored i ffermydd yr oedd gan eu buchesi achosion parhaus o TB yn yr Ardaloedd TB Uchel, ond gallai hyn yn awr hefyd fod yn berthnasol i'r cyfryw ffermydd sy'n bodloni'r meini prawf yn yr ITBAN. Caiff buchesi eu dewis ar sail blaenoriaeth, eu hasesu gan filfeddygon achosion APHA ar feini prawf risg, megis a gadarnhawyd bod gan fochyn daear marw TB buchol o'r un math â'r gwartheg, yn ardal y fferm.

Protocol i hysbysu Llywodraeth Cymru a ddylid ystyried trapio a symud moch daear:

- Mae'r fuches wartheg yr effeithir arni wedi cael ei dosbarthu yn fuches sydd ag achosion cronig o TB.
- Mae'n bosibl bod mesurau eraill megis uwch reolaethau gwartheg, profion mwy sensitif, gwell bioddiogelwch a dulliau gwahanu eraill eisoes wedi cael eu gweithredu ond nad ydynt wedi clirio'r haint.
- Ar ôl cynnal yr ymchwiliad epidemiolegol, mae'r milfeddyg achosion APHA yn bendant o'r farn bod TB yn pasio rhwng gwartheg a moch daear.
- Mae perchennog y fuches/perchennog y tir yn cytuno i ganiatáu i'r moch daear sy'n profi'n bositif gael eu trapio, eu profi a'u lladd heb greulondeb.
- Fe welwyd gweithgaredd moch daear ar y fferm drwy arolwg penodol (brochfeydd, carthfeydd, rhedfeydd neu fannau chwilota ag ôl defnydd trwm arnynt).
- Ceir hanes o wartheg sydd wedi adweithio i'r prawf TB yn rhannu'r un cynefin â moch daear.

Ar hyn o bryd, ni chaiff y mesur hwn ei ymestyn i ffermydd sydd ag achosion newydd cyn pen 6 mis o gau achos cynharach (ailadroddus).

2. Sut ydych chi'n egluro rhai o'r buchesi hyn yn CL7 a CL8 ac sy'n gaeedig ers hyd at 20 mlynedd? Nid symudiadau yw'r rhain yn bendant? (Ni chafodd dim gwartheg eu symud i'r fferm).

Mae milfeddygon achosion, wrth wneud dadansoddiad o'r achos ar gyfer Cynllun Gweithredu, yn canfod haint sydd heb gael ei ddatgelu yn y boblogaeth wartheg fel nodwedd barhaus yn llawer o'r achosion hirdymor hyn mewn buchesi. Mae hyn yn golygu bod gwartheg heintiedig sy'n aros yn y fuches yn methu â chael eu



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

hadnabod fel anifeiliaid positif er iddynt gael eu profi. Mae defnyddio profion ychwanegol, megis prawf gama hyblyg-estynedig a'r prawf IDEXX yn canfod rhai o'r anifeiliaid hyn, sy'n aml â hanes o adweithiau positif i dwbercwlín buchol yn y prawf croen mewn dau neu ragor o brofion blaenorol.

3. O safbwynt fy nghwestiwn blaenorol, pam na chaiff gwaith trapio a phrofi ei wneud yn yr ardal hon?

Atebwyd y cwestiwn yn 1.

4. Os yw dros 50% o'r achosion yn gysylltiedig â haint lleol, pam nad oes dim mesurau newydd i'w cael i fynd i'r afael â hyn?

Mae'r ffigur hwn yn ymwneud â ffynonellau heintiau lleol, gan gynnwys o bosibl cyswllt trwyn wrth drwyn â buchesi cyfagos, gwartheg yn mynd ar grwydr, neu fywyd gwyllt. Mae'r Cynlluniau Gweithredu a gyflwynir mewn achosion parhaus ac ailadroddus (i'r prawf 6 mis) o TB mewn buchesi yn ystyried ac yn anelu i wella'r mesurau bioddiogelwch sydd ar waith, megis ansawdd ffensys terfyn â buchesi cyfagos a mynediad moch daear i storfeydd porthiant gwartheg, adeiladau gwartheg a chafnau bwyd a dŵr. Byddem yn annog pob ffermwr i wella bioddiogelwch ar eu daliad ac, os ydynt yn terfynu ag achos o TB, fe ddylent dderbyn y cynnig o ymweliadau "Cadw TB Allan" rhad ac am ddim gan Cymorth TB.

5. Allan o'r holl brofion positif, pa ganran sy'n dod yn ôl yn amhendant?

Mae cyfran yr anifeiliaid mewn unrhyw brawf buches unigol sy'n adweithyddion a'r gyfran sy'n adweithyddion amhendant ar ôl eu dehongli dan amodau safonol neu gaeth yn gallu amrywio llawer iawn ar draws y sbectwm cyfan. Maent yn amrywio o achosion ffrwydrol gyda 100+ o adweithyddion ac ychydig o adweithyddion amhendant mewn prawf datgelu o'u dehongli dan amodau safonol i brawf datgelu sy'n cael un adweithydd a hanner dwsin o adweithyddion amhendant o'u dehongli dan amodau safonol; gall y rhain, o ddehongli'r prawf dan amodau caeth, ddod yn 6 adweithydd ac yn 60+ o adweithyddion amhendant.

6. A oes cysylltiadau rhwng clefyd Johne a TB Buchol? A yw anifail sydd wedi profi'n positif am gelfyd Johne yn effeithio ar ganlyniad prawf TB Buchol h.y. canlyniad positif ffug?



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Mae clefyd Johne yn fwy tebygol o gynhyrchu profion negyddol ffug. Mycobacteriwm o'r grŵp *Mycobacteriwm adaraidd* (neu *M.avium*) (TB Adar) yw'r organeb sy'n gyfrifol am glefyd Johne.

Rydyn ni'n credu bod anifeiliaid sydd wedi'u cyd-heintio â'r organeb hon ac *M.bovis*, yr organeb sy'n gyfrifol am TB buchol, yn gallu ymateb yn gryfach i chwistrelliad twbercwlin adaraidd oherwydd *M. avium*, sy'n golygu bod yr anifeiliaid sydd wedi'u cyd-heintio yn dod yn adweithyddion amhendiant nid yn adweithyddion. Gall hyn guddio presenoldeb TB buchol yn y prawf croen a'r prawf gama paralel normal. Gall y prawf gama hyblyg-estynedig ein helpu i ddiagnosio'r cyfryw anifeiliaid fel rhai sydd wedi'u heintio â TB.

7. Sawl math o TB sydd i'w cael yn ardal CL7 a pha fath yw'r mwyaf cyffredin?

O'r 42 digwyddiad TB agored yn ardal wledig Wreccsam ar ddiwedd Mehefin 2020, cadarnhawyd y clefyd mewn 32 ohonynt; cafodd y genoteip ei ynysu mewn 25 o'r rhain, ac **17:a** oedd fwyaf cyffredin (21 buches), wedyn **25:a** (3 buches), **25:b** (2 fuches) a gwelwyd **10:a** mewn un fuches a **22:a** mewn un arall. I'r dyfodol, gallai gwahaniaethu pellach ddeillio o ddilyniannu genomau cyfan sy'n mynd y tu hwnt i broses ynysu genoteipio syml, mae hwn eisoes wedi dangos mewn astudiaethau peilot ei fod yn gallu ychwanegu manylder at epidemioleg folecylaidd.